YMA I LWYDDO!

Presenoldeb a Phrydlondeb

ABSENOLDEB AWDURDODEDIG

Os yw eich plentyn yn sâl, gallwn roi marc '**I**' os ydych chi wedi gadael i ni wybod neu anfon tystiolaeth feddygol o'i salwch.
Ar gyfer apwyntiad meddygol (gyda thystiolaeth), byddwn yn rhoi marc **M**. Pan fo'n bosib, dylid gwneud apwyntiadau ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau. Disgwylir i ddisgyblion ddod i mewn i'r ysgol cyn ac ar ôl apwyntiadau.
Os bydd eich plentyn yn absennol am ddeng niwrnod neu fwy oherwydd salwch, gofynnir i chi am dystiolaeth meddygol.

ABSENOLDEB HEB EI AWDURDODI

Nid yw'r absenoldeb wedi ei awdurdodi os bydd eich plentyn yn colli ysgol am unrhyw un o'r rhesymau canlynol: penblwyddi / digwyddiadau teuluol, siopa, ymweld â theulu, gwylio digwyddiad chwaraeon, gofalu am aelod o'r teulu. Rhoddir **O** yn erbyn pob absenoldeb sydd heb ei awdurdodi.

% Presenoldeb	Beth mae'n ei olygu?
100%	Presenoldeb rhagorol. Da iawn!
94 – 99%	Presenoldeb da. Daliwch ati!
90 – 93%	Rydym yn dechrau pryderu.Bydd Tiwtor Dosbarth a Phennaeth Blwyddyn eich plentyn yn monitro presenoldeb a bydd llythyr yn cael ei anfon atoch.
O dan 90%	Erbyn hyn mae diffyg presenoldeb eich plentyn yn achosi pryder mawr. Byddwch yn derbyn llythyr yn gofyn i chi fynychu cyfarfod yn yr ysgol.
85% neu is	Achos o bryder sylweddol. Os na fydd y sefyllfa'n gwella, gofynnir i chi fynychu panel presenoldeb ffurfiol yn yr ysgol gan fod posibilrwydd y cewch eich herlyn.

Mae DAWN, DYSG a DAIONI eich plentyn yn bwysig i ni.

Mae'n bwysig fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol gymaint â phosibl, er mwyn llwyddo i gyflawni hyd eithaf ei g/allu.

Gall canran presenoldeb gwael effeithio hefyd ar hunan-barch, grwpiau cyfeillgarwch a pherthynas eich plentyn â'r staff.
Bydd plentyn sy'n colli ysgol yn aml yn colli tir o ran gwaith ysgol a ffrindiau, a bydd yn anodd i'r athrawon ddod i'w hadnabod a'u helpu yn y meysydd hynny lle mae angen cymorth ychwanegol.

Gwybodaeth i Rieni/Gwarcheidwad

Mae presenoldeb eich plentyn yn bwysig!

Ni fydd eich plentyn yn gallu cyflawni yn yr ysgol os nad yw yma!

- ½ diwrnod i ffwrdd mewn wythnos = presenoldeb o 90%
- 1 diwrnod i ffwrdd mewn wythnos = presenoldeb o 80%
- 1½ diwrnod i ffwrdd mewn wythnos = presenoldeb o 70%
- 2 ddiwrnod i ffwrdd mewn wythnos = presenoldeb o 60%

Disgwyliwn y bydd pob disgybl yn anelu at **100%**. Mae'n ofynnol bod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol am o leiaf **95%** o'r amser, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

DIFFYG PRYDLONDEB

Mae bod yn hwyr yn aml i'r ysgol yn arwain at golli addysg.

- Mae cyrraedd 5 munud yn hwyr bob dydd yn golygu colli mwy na 3 diwrnod bob blwyddyn.
- Mae cyrraedd 15 munud yn hwyr bob dydd yr un fath â bod yn absennol am 2 wythnos bob blwyddyn.
- Mae cyrraedd 30 munud yn hwyr bob dydd yr un fath â bod yn absennol am 19 diwrnod bob blwyddyn.

ABSENOLDEBAU MEWN BLWYDDYN

- Absenoldeb o 10 diwrnod (2 wythnos) = presenoldeb o 95%
- Absenoldeb o 19 diwrnod (bron 4 wythnos) = presenoldeb o 90%
- Absenoldeb o 29 diwrnod (bron 6 wythnos) = presenoldeb o 85%
- Absenoldeb o 38 diwrnod (bron 8 wythnos) = presenoldeb o 80%
- Absenoldeb o 47 diwrnod (bron 10 wythnos) = presenoldeb o 75%

RHAID BOD YMA! I LWYDDO **DEWCH A DYSGWCH** **RHOWCH 100% I BRESENOLDEB**